Fforwm Landlordiaid y Sector Preifat – 27ain Mawrth 2008

Bu presenoldeb da yn fforwm y landlordiaid ar 27ain Mawrth 2008 ac amlinellir y prif bwyntiau a godwyd isod ynghyd â chyflwyniadau'r noson. Os hoffech ragor o wybodaeth neu gopïau o'r cyflwyniadau cysylltwch â'r Tîm Safonau Tai.

Prif Bwyntiau:

- Nodwyd landlordiaid y sector preifat fel cyfranwyr pwysig at dai fforddiadwy ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam.

- Mae Strategaeth Eiddo Gwag y Sector Preifat bellach wedi ei fabwysiadu gan y Cyngor a gyda'r Tîm Safonau Tai mae'r Cyngor yn awyddus i sicrhau y bydd tai sydd wedi bod yn wag yn yr hirdymor yn cael eu hailddefnyddio.

- Dywedodd Tîm Cefnogi Pobl, y Gwasanaethau Tai Strategol wrth landlordiaid bod cleientiaid mewn cynlluniau llety yn cael anawsterau wrth gael llety pan fyddant yn barod i symud ymlaen a byw'n annibynnol. Teimlwyd y gallai'r sector rhent preifat roi cymorth gwerthfawr i gynyddu'r llety sydd ei angen.

- Dywedodd y Prif Swyddog Safonau a Strategaeth Tai, Mike Jenkins, wrth landlordiaid bod disgwyl rhoi'r Cynllun Achredu Landlordiaid Cymru (LAWS) ar waith yn hydref 2008. Cafodd landlordiaid gyflwyniad byr am fanteision y cynllun a gofynion cofrestru i fod yn rhan o'r cynllun achredu.

- Rhoddodd Lynda Powell sy'n gweithio yn Athrofa Gogledd Ddwyrain Cymru (NEWI) ddiweddariad i'r landlordiaid am gais NEWI i ennill statws prifysgol a dywedodd wrthynt fod diffyg llety i fyfyrwyr sy'n mynychu NEWI cyn iddynt fod yn brifysgol.

- Siaradodd Julie Woolfenden, cynrychiolydd y Gymdeithas Landlordiaid Cenedlaethol (NLA), am y manteision o fod yn aelod o'r gymdeithas. Gofynnodd iddynt hefyd os oes yna unrhyw landlordiaid yn y sector preifat sydd am gyflwyno sylwadau i'r cyfryngau er mwyn cael cynrychiolaeth deg i'w busnes, dylent gysylltu â hi drwy'r Tîm Safonau Tai neu'r NLA.